

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 31 AWST 2018

Yn Cynghorydd Mackie(Cadeirydd)
bressenol: Cynghorwyr Sattar a/ac Wood

16 : DATGANIAD BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

17 : CAIS AM DRWYDDED SAFLE - TESCO, BBC ADEILADU

Ymgeiswyr: Wedi'u cynrychioli gan Jeremy Bark, Cyfreithwyr BCLP

Awdurdod Cyfrifol: Tony Bowley, Heddlu De Cymru

Y Cais

Derbyniwyd cais am Drwydded Safle gan Tesco Stores Limited mewn perthynas â Tesco, Llawr Daear, Unedau Masnachol 1-5, Adeilad BBC, Sgwâr Canolog, Caerdydd.

Ymgeisiodd yr ymgeisydd am y canlynol:

(1) Parthed y gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

1. Cyflenwi alcohol i'w yfed oddi ar y safle.

(2) Disgrifiad o'r Safle (fel y nodwyd gan yr ymgeisydd):

"Safle manwerthu (archfarchnad) sy'n gwerthu ystod o nwyddau a gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle. Gwerthir alcohol i'w yfed oddi ar y safle o brif ardal siopa'r archfarchnad fel y dangosir ar y cynllun amgaeedig".

(3) Cynigir yr oriau agor canlynol:

Heb eu nodi

(4) I ddarparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:

1. Cyflenwi alcohol i'w yfed oddi ar y safle:

Dydd Llun i ddydd Sul: 06:00 tan 00:00

Sylwadau'r Awdurdod Cyfrifol

Siaradodd Mr Tony Bowley ger bron yr Is Bwyllgor ar ran Heddlu De Cymru. Dywedwyd wrth yr Aelodau i Heddlu De Cymru wrthod cymeradwyo trwydded safle

ar sail yr amcanion trwyddedu atal trosedd ac anhrefn, atal niwsans cyhoeddus a diogelu plant rhag niwed.

Dywedodd Mr Bowley, pe bai'r Is-bwyllgor am gymeradwyo'r cais yna byddai Heddlu De Cymru yn gwneud cais bod 3 amod wedi'u nodi yn y sylwadau ysgrifenedig yn cael eu hatodi i'r drwydded safle. Mae'r ymgeisydd wedi derbyn yr amodau hynny.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y safle yn ardal y Polisi Effaith Gronnol. Mae yn yr ardal hon lefelau anghyfartal o drosedd, anhrefn a niwsans cyhoeddus o ganlyniad i agosrwydd safleoedd trwyddedwy. Cyfeiriodd Mr Bowley at dystiolaeth ystadegol nifer o droseddau wedi'u hadrodd yn yr ardal rhwng Ionawr 2016 a Mawrth 2018. Dangosodd yr ystadegyn hon fod lefel y trosedd yn yr ardal yn uwch ac mae hyn wedi'i berthyn yn uniongyrchol i weithgareddau trwyddedadwy. Felly, er mwyn i'r drwydded safle gael ei rhoi mae'r baich ar yr ymgeiswyr i ddangos na fyddai'n cael effaith negyddol ar yr amcanion trwyddedu.

Nid oedd Mr Bowley yn gallu cadarnhau faint o'r troseddau wedi'u hadrodd yn yr ystadegau sy'n berthyn i ddigwyddiadau yng nghanhennau Tesco yng Nghanol y Ddinas.

Sylwadau'r Ymgeisydd

Cyflwynodd Mr Jeremy Bark y cais hwnnw. Dywedodd Mr Bark fod y cais am drwydded safle newydd, ond i bob diben roedd cais i ail-leoli trwydded gyfredol yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Sgwâr Canolog a byddai'r trwydded safle am siop Stryd Wood yn cael ei diddymu cyn i unrhyw drwydded newydd ddod ar waith.

Byddai'r drwydded safle newydd am siop cyfleustodau cyffredinol. Mae Datganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod yn cydnabod bod siopau cyfleustodau yn cyflwyno risg isel o ran trosedd, anhrefn a niwsans cyhoeddus. Byddai'r siopau hyn yn cynnig tua 90 o gynhyrchion alcohol; gwinoedd yn bennaf, gyda nifer cyfyngedig o wirod, cwrw a seidr. Dywedwyd wrth yr Aelodau am drefn y siop a'r polisïau a'r rheoliadau ar waith sy'n llywodraethu gwerthu alcohol.

Nododd Mr Bark y gwerthwyd 95% o'r alcohol a werthwyd gyda chynhyrchion eraill. Gweiniodd y siop gwsmeriaid sydd naill ai'n gweithio neu'n byw yng Nghanol y Ddinas gyda siopa cyflenwi'n bennaf.

Gan ymateb i bwyntiau wedi'u gwneud gan Mr Bowley am y troseddau wedi'u adrodd, dywedodd Mr Bark fod 3 digwyddiad wedi bod yn Tesco yn Stryd Wood yn y 30 mis diwethaf. Ni synnodd y lefel isel o ddigwyddiadau wedi'u hadrodd yr ymgeiswyr o ganlyniad i'r ystod o bolisïau arfer gorau sydd ar waith.

Rhodddwyd i'r Aelodau drosolwg cynhwysfawr o'r polisïau a'r gweithdrefnau wedi'u gweithredu gan yr ymgeisydd, gan gynnwys y cynllun Meddwl 25, hyfforddiant staff, archwiliadau mewnl ac ymarferion siopwr dirgel.

Awgrymodd Mr Bark na fyddai'r drwydded safle newydd yn cael effaith negyddol ar yr amcanion trwyddedu a felly byddai polisi'r awdurdod yn fodlon a dylid cymeradwyo'r cais.

Cadarnhaodd Mr Bark y byddai'r ymgeiswyr yn derbyn amodau 2, 3, 4 a 5 o drwydded safle siop Stryd Wood. Gwahoddwyd yr aelodau i ganiatáu'r cais.

PENDERFYNWYD: Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu ei hun, cymeradwyodd yr Is-Bwyllgor y cais, yn amodol ar yr amodau y cytunwyd arnynt.

18 : CAIS AM DRWYDDED SAFLE - TITAN WAREHOUSE, TITAN ROAD

Ymgeiswyr: Wedi'u cynrychioli gan Phil Cryer, Phil Sheeran,
Sam Bush, Warren King

Awdurdod Cyfrifol: Stephanie Watham, Rheoli Llygredd

Y Cais

Derbyniwyd cais am Drwydded Safle gan Live Nation (Music) UK Limited mewn perthynas â Warws Titan, Titan Road, Caerdydd.

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) Parthed y gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

1. Manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle
2. Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf sioeau, ffilmiau, cerddoriaeth fyw, cerddoriaeth wedi'i recordio, perfformiadau dawn ac unrhyw beth o ddisgrifiad tebyg (tu fewn).
3. Darparu lluniaeth gyda'r hwyrnos (y tu mewn a'r tu allan).

(2) Disgrifiad o'r Safle (fel y nodwyd gan yr ymgeisydd):

'Adeilad warws a maes parcio awyr agored cyfagos fel y nodir gan y cynllun wedi'i gyflwyno gyda'r cais, o'r enw Warws Sblot ar hyn o bryd, i gael eu henwi'n Warws Titan ar gyfer y drwydded safle. Cynigir y bydd 10 diwrnod digwyddiad yn ogystal â Nos Galan ar y mwyaf bob blwyddyn fydd yn cynnwys darparu adloniant wedi'i reoleiddio a gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle fel y nodir yn y cais.'

(3) Cynigir yr oriau agor canlynol:

Dydd Llun i ddydd Iau: 18:00 tan 00:30
Dydd Gwener i ddydd Sul: 14:00 tan 00:30
Nos Galan: 18:00 tan 04:30

(4) I ddarparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:

1. Manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle:

Dydd Llun i ddydd Iau: 18:00 tan 00:00
Dydd Gwener i ddydd Sul: 14:00 tan 00:00
Nos Galan: 18:00 tan 04:00

2. Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf sioeau, ffilmiau, cerddoriaeth fyw, cerddoriaeth wedi'i recordio, perfformiadau dawns ac unrhyw beth o ddisgrifiad tebyg (tu fewn).

Dydd Llun i ddydd Iau: 18:00 tan 00:00
Dydd Gwener i ddydd Sul: 14:00 tan 00:00
Nos Galan: 18:00 tan 04:00

3. Darparu lluniaeth gyda'r hwyrnos (y tu mewn a'r tu allan):

Dydd Llun i ddydd Sul: 23:00 tan 00:00
Nos Galan: 23:00 tan 04:00

Ar ddechrau'r gwrandawriad, gofynnodd Claire Hartrey o'r Adran Drwydded, y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, i Phil Cryer gadarnhau ei bod wedi'i gytuno bod y cais yn cael i newid i gyfyngu ar nifer y diwrnodau digwyddiad i 6, ar ddyddiau Gwener/Sadwrn dros tri phenwythnos yn ystod y flwyddyn ac na fydd mwy na 2 ddigwyddiad mewn cyfnod o 4 mis. Cadarnhaodd Mr Cryer y cafodd y newid ei gytuno a'i dderbyn gan yr ymgeiswyr.

Awdurdod Cyfrifol

Siaradodd Stephanie Watham gerbron yr Is-bwyllgor hwnnw. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Rheoli Llygredd wedi gwrthwynebu cymeradwyo trwydded safle ar sail yr amcan trwyddedu atal niwsans cyhoeddus.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y derbyniwyd y cais ar 26 Mehefin 2018. Aeth Stephanie Watham i'r safle a gwrthwynebodd y cais ar 6 Gorffennaf 2018 o ganlyniad i bryderon am sŵn yn dod o gerddoriaeth, sŵn torfeydd a sŵn gan seilwaith cyflenwol megis generaduron.

Dywedodd Stephanie Watham fod Cod Ymarfer y Cyngor Sŵn ar Reoli Sŵn Amgylcheddol yng Nghyngherddau (1995) yn argymhell na ddylai sŵn fod yn uwch na 15 db mewn preswylfeydd agos. Nid oedd yr ymgeisydd yn barod i dderbyn y lefelau wedi'u nodi yn y canllawiau.

Yn hanesyddol, mae nifer o gwynion sŵn wedi bod oherwydd digwyddiadau wedi'u cynnal yn y safle. Aeth y swyddogion Rheoli Llygredd i weld preswylwyr yn ystod y digwyddiadau hynny a chadarnhaodd fod niwsans sŵn statudol wedi bod.

Roedd yr ymgeiswyr wedi creu Asesiad Sŵn a Chynllun Rheoli Sŵn. Fodd bynnag, roedd yr asesiad sŵn ar sail ymarfer bwrdd gwaith ar sail modelu ac nid oedd yr ymgynghorydd sŵn wedi ymweld â'r safle. Roedd yr asesiad ar sail adeilad gwbl amgaeedig. Nid oedd yr ymgynghorydd yn ymwybodol bod gan yr adeilad agoriadau a felly dylid ystyried unrhyw ddigwyddiadau a gynhelir yno'n ddigwyddiadau awyr agored.

Anogwyd yr Aelodau i wrthod y cais

Sylwadau'r Ymgeisydd

Cyflwynodd Mr Phil Cryer y cais. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y cais, yn dilyn y cais, wedi cael ymateb sylweddol gan awdurdodau cyfrifol. Mae'r ymgeisydd yn bwriadu bodloni'r amcanion trwyddedu ac i'r diben hwnnw mae'r ymgeisydd wedi cytuno i dderbyn yr holl amodau wedi'u nodi yn y sylwadau ysgrifenedig wedi'u derbyn gan Heddlu De Cymru. Mae'r ymgeiswyr - Live Nation – yn gwmni ag enw da sydd am ddangos eu bod yn mynd i'r afael â phryderon yn ddifrifol ac yn gweithio gyda, a dod i gytundeb gyda'r awdurdodau cyfrifol.

Mae'r cais wedi'i newid er mwyn mynd i'r afael â nifer o'r pryderon wedi'u nodi yn y sylwadau ysgrifenedig wedi'u derbyn. Er enghraifft, mae nifer y diwrnodau digwyddiad wedi'i leihau o 10 i 6, cynhelir y digwyddiadau gydag o leiaf 3 mis rhyngddynt a bydd digwyddiadau ar ddydd Gwener yn dechrau ar ôl 1600 er mwyn osgoi gwrthdaro gyda'r diwrnod gwaith. Mae'r ymgeisydd hefyd yn barod i gynnig amser gorffen o 2300 ar naill ai dydd Gwener neu ddydd Sadwrn.

Mae'r ymgeisydd wedi derbyn 32 amod gan Heddlu De Cymru. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr ymgeisydd yn hyderus y gellir cydymffurfio â'r 32 amod. Fodd bynnag, nid oedd yn briodol barnu'r ymgeisydd hyn ar gwynion wedi'u gwneud am ddigwyddiadau wedi'u trefnu gan weithredwyr eraill. Live Nation yw'r hyrwyddwr cyngherddau rhyngwladol mwyaf. Maent wedi trefnu tua 20,000 o ddigwyddiadau o ddigwyddiadau mawr megis Gŵyl Rading/Leeds, Wireless, Gŵyl Download, Penwythnos Mawr Radio 1, Cyngerdd Help i Arwyr, ac ati i gyngherddau a digwyddiadau lleol llai gyda'r bwriad o ddod â cherddoriaeth i bobl.

Dywedwyd wrth yr aelodau fod Live Nation wedi nodi Caerdydd fel lleoliad delfrydol ond bydd ond yn llwyddiannus os gallant sicrhau agwedd hirdymor. Dywedodd Mr Cryer nad oedd ymgeiswyr yn mynd i'r afael â phryderon; mae angen iddynt fod yn fodlon os byddant yn buddsoddi yn y safle hwn a'u bod yn ddifrifol am gydymffurfio â'r drefn reoliadol. Caiff cynllun rheoli cynhwysfawr ei roi ar waith ar gyfer pob digwyddiad a bydd y tîm rheoli digwyddiadau yn mynd i Banel Digwyddiadau'r Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch.

Mae'r ymgeiswyr yn bwriadu dod â digwyddiadau i Gaerdydd y bydd pobl leol yn eu mwynhau yn ogystal â denu ymwelwyr i'r Ddinas. Mae'n debygol o fod budd sylweddol i'r ardal o ran twristiaeth a chyflogaeth. Bydd manau masnachol eu defnyddio'n well hefyd.

Bydd y strwythur ar y safle yn galluogi rhoi mesur gwahanu ar waith. Buddsoddir hefyd yn y seilwaith a chyfleusterau eraill. Fodd bynnag, derbyniwyd pryderon trigolion a busnesau lleol. Mae'r ymgeiswyr yn ymwybodol o'r effaith y caiff digwyddiadau a chaiff mesurau lleihau sylweddol eu rhoi ar waith, o ran diogelwch a stiwardio yn ystod digwyddiadau.

Bu trafodaeth gyda swyddogion o Reoli Llygredd. Cynigiodd Mr Cryer seto o amodau sy'n dangos dealltwriaeth gall o'r materion. Credodd Mr Cryer nad oedd mantais gwneud cais am drwydded safle i gynnal un digwyddiad oedd yn destun

llawer o gwynion. Gobeithio bod yr amodau wedi'u cynnig yn briodol ac roedd yr ymgeiswyr yn ceisio'r cyfle i brofi hynny.

Byddai o leiaf 3 mis rhwng digwyddiadau a byddai mesurau adweitheddol eu rhoi ar waith rhwng digwyddiadau, yn ôl yr angen. Byddai hefyd gyfle i adolygu'r drwydded safle neu gyhoeddi hysbysiad lleihau sŵn, er enghraifft.

Siaradodd Mr Sam Bush gerbron Is-bwyllgor. Dywedodd Mr Bush fod yr ymgeiswyr am gyflawni cyfleoedd newydd trwy fynd i'r afael â'r galw enfawr am gerddoriaeth yn yr ardal. Mae Live Nation wedi gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac eraill i sicrhau bod ei weithgareddau'n gynaliadwy a felly mae'n bwysig adeiladu perthnasau da o ran rheoli sŵn a rheol torfeydd. Mae Live Nation yn parchu barn eraill a bydd yn gwneud popeth sy'n bosibl i leihau effaith unrhyw ddigwyddiadau.

Dywedodd Mr Paul Sheeran fod cyfle gwych i greu brand unigryw yn y Ddinas a chyfrannu tuag at Strategaeth Gerddoriaeth y Ddinas a dyheadau i ddod yn Brifddinas Cerddoriaeth Ewropeaidd. Y cyfle oedd i Live Nation a Chaerdydd dyfu gyda'i gilydd.

Cadarnhaodd Mr Cryer nad yw'r ymgeiswyr yn berchen ar yr adeilad. Fodd bynnag, roedd cytundeb 5 mlynedd ar waith a fyddai'n galluogi cynnwys seilwaith gyda'r bwriad o leihau effaith. Byddai'r effaith honno'n cael ei hasesu a'i lleihau yn unol â hynny.

Gofynnodd Stephanie Watham i Mr Cryer egluro'r asesiad sŵn yn Fersiwn 3 adroddiad yr Asesiad Sŵn a nododd y byddai eiddo preswyl yn destun 75 dbs. Dywedodd Mr Cryer y byddai'r amod a awgrymwyd yn flaenorol yn caniatâi hyd at 65 dbs. Os bydd niwsans sŵn yn uwch na hyn yna bydda mesura lleihau eu rhoi ar waith ar gyfer digwyddiadau dilynol.

Cadarnhaodd Mr Cryer y bydd rhywun yn gweithio ar y llinell ffôn ar gyfer cwynion sŵn pan fo'r digwyddiad yn cael ei gynnal ac y bydd y swyddogion sy'n gyfrifol am drin cwynion ar y safle yn ystod y digwyddiad. Ym mhrofiad yr ymgeisydd roedd cyfathrebu'n iawn yn hanfodol i gynnal digwyddiadau llwyddiannus.

Crynhoi

Gwahoddwyd pob parti i grynhoi.

Dywedodd Stephanie Watham, er gwaethaf yr amodau wedi'u cynnig gan yr ymgeiswyr, fod gan Reoli Llygredd bryderon.

Dywedodd Mr Cryer fod ymgeiswyr wedi bod yn bendant glir ac wedi mynd i'r afael â materion sŵn.

PENDERFYNWYD: Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu ei hun, cymeradwyodd yr Is-Bwyllgor y cais, yn amodol ar yr amodau y cytunwyd arnynt gyda Heddlu De Cymru a'r amodau eraill wedi'u cynnig gan yr ymgeisydd.

Ni chyflwynwyd unrhyw eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30 pm